YR HYN MAE TEYRNAS DDUW YN EI WNEUD I NI NAWR

Nodyn i'r siaradwr:
Cyflwynwch yn glir y dystiolaeth bod Teyrnas Dduw yn rheoli, ac yn gwir weithredu fel llywodraeth. Dangoswch nid yn unig beth mae'n ei wneud ond beth yw dyletswyddau ei dinasyddion

TYSTIOLAETH GADARN BOD RHEOLAETH Y DEYRNAS WEDI DECHRAU YN 1914 (6 mun.)

Dysgodd Iesu inni weddïo: "Deled dy deyrnas" (Mth 6:10)

Bydd y Deyrnas nefol yn dod â pharadwys fyd-eang mewn amser, ond fe gafodd ei sefydlu tra bod llywodraethau dynol yn dal i reoli ar y ddaear (Da 2:44; Dat 21:4) [Darllenwch Salm 110:1, 2]

Mae proffwydoliaeth a chronoleg Feiblaidd yn cyfeirio at 1914 fel blwyddyn sefydliad y Deyrnas (Dat 12:10, 12)

Daeth diwedd ar amserau penodedig y cenhedloedd (Lc 21:24; Esec 21:26, 27; *bh* t.216 par.2–t.217 par.3)

Daeth cyflawniad arwydd cyfansawdd presenoldeb Crist yn ei awdurdod brenhinol (Mth 24:3; *bh* 88-92)

Mae'r "amserau enbyd" sydd yma nawr yn amlygu ein bod ni yn y "dyddiau diwethaf" (2Ti 3:1-5)

Y mae carlam y pedwar marchog yn Datguddiad pennod 6 yn cadarnhau ein bod ni'n byw yn ystod amser rheolaeth y Deyrnas (Dat 6:2, 4-6, 8; *w86*-E 1/1 1-7)

Rhagfynegwyd 'gwae'r ddaear,' sydd nawr yn amlwg wrth weld pobl a chenhedloedd mewn cyfyngder (Dat 12:12)

YR HYN MAE TEYRNAS DDUW YN EI WNEUD HEDDIW (20 mun.)

Mae wedi ymgasglu miliynau o *ddinasyddion ffyddlon* (Dia 14:28)

Er eu bod yn byw mewn mwy na 235 o wledydd, maent yn frwd eu cefnogaeth o Deyrnas Dduw (Sal 110:3)

Yn y flwyddyn wasanaeth ddiwethaf bu iddynt, o'u gwirfodd, dreulio biliwn a hanner o oriau yn lledaenu neges y Deyrnas [defnyddiwch y ffigyrau diweddaraf]

Fel llywodraeth nefol, y mae'n gweinyddu *cyfreithiau ysgrifenedig*

Yng Ngair Duw y mae cyfreithiau ar gyfer y rhai sydd o dan reolaeth y Deyrnas (Sal 19:7)

Dyma'r unig lywodraeth â chyfraith gariad ganddi (In 13:34, 35)

Mae cyfreithiau Beiblaidd yn ystyriol o'r ffaith bod Cristnogion yn byw o dan gyfreithiau llywodraethwyr bydol, felly mae Cristnogion yn ymostwng yn gymharol i Gesar ond ar delerau Duw (Rhu 13:1, 7)

O blith y ddynoliaeth, mae dinasyddion y Deyrnas ymysg y rhai mwyaf parchus o'r gyfraith (*w02*-E 11/1 12-13; *g00*-E 6/8 28; *g97*-E 8/22 26)

Yn aml, mae swyddogion ac eraill yn cydnabod ymddygiad da y rhai sydd yn ufudd i reolaeth y Deyrnas (1Pe 2:12; *w02*-E 11/1 12-13; *g*-E 4/07 27; *g00*-E 6/8 28; *yb94*-E 166-167)

Rheolaeth y Deyrnas sy'n gorfodi cyfreithiau Duw

Bydd halogwyr diedifar cyfreithiau Duw yn cael eu bwrw allan o'r gynulleidfa, hyn sy'n ei chadw hi'n lân (1Co 5:11-13; *w99*-E 6/1 17; *w98*-E 8/1 16)

Mae Teyrnas Dduw wedi darparu *system addysg* i'w dinasyddion

Drwy'r Beibl a llenyddiaeth Feiblaidd, fel y *Watchtower* a'r *Awake!,* mae'r Addysgwr Mawr 'yn ein dysgu er ein lles' (Esei 30:20; 48:17)

Mae pob aelod o'r teulu yn manteisio o ddysgu sut i gyflawni'r rôl y mae Duw wedi ei rhoi iddo

Mae Addoliad Teuluol yn ymdrin â phethau yn ôl yr angen personol

Mae rhaglenni addysg sy'n seiliedig ar y Beibl yn hybu hyfforddiant yn ffyrdd Jehofah

[Dangoswch sut mae amryw ysgolion y gyfundrefn yn dangos i filiynau sut i roi'r pethau pennaf ar waith (*be*-E 8; *km* 10/11 5-6)]

Mae addysg Feiblaidd ddi-dâl yn cael ei chynnig yn fyd-eang i'r rhai sydd â diddordeb

Mae miliynau o astudiaethau Beiblaidd yn cael eu cynnal bob wythnos

Mae'n llenyddiaeth, sydd ar gael mewn mwy na 600 o ieithoedd, wedi bod yn allweddol i'r gwaith pwysig hwn

Mae gan y Deyrnas *gynrychiolwyr gweladwy* sydd yn gofalu am ei dinasyddion, ac yn eu hamddiffyn (Esei 32:1, 2; *w06*-E 7/15 5)

Mae henuriad yn gwasanaethu fel bugeiliaid ac athrawon drwy ddarparu cynhaliaeth adfywiol i'r praidd (Mth 11:28-30)

RHEOLAETH Y DEYRNAS—CYMORTH INNI DDYFALBARHAU NAWR (4 mun.)

Mae myfyrio ar yr hyn mae Teyrnas Dduw yn ei wneud drosom nawr yn cryfhau'n ffydd (Sal 77:12; 145:11)

Mae yn ein hysgogi ni i bregethu'n selog (Rhu 10:11, 13-15)

Rydym yn gwbl sicr o gefnogaeth yr angylion (Dat 14:6, 7; *w09*-E 5/15 24-25)

Drwy gydol hanes, mae pobl wedi gwneud aberthau dros lywodraethau dynol, ond siomedigaeth yw'r canlyniad iddynt

Yn groes i hyn, ni fydd dinasyddion Teyrnas Dduw byth yn cael eu siomi

Mae buddion y Deyrnas i'w cael hyd yn oed nawr

Mae wedi ein helpu i nesáu at Dduw a phrofi cariad a chymorth y frawdoliaeth fyd-eang (Iag 4:8; 1Pe 2:17)

O dan reolaeth Teyrnas Dduw, yn fuan, cawn weld gwireddiad ein holl obeithion Beiblaidd (Sal 145:16; Rhu 8: 24, 25; Dat 21:5)

(Glynwch yn agos wrth yr amlinelliad hwn, a chadwch at yr amser a bennwyd ar gyfer pob rhan. Does dim rhaid darllen na thrafod pob cyfeiriad. Gweler y llyfr *Ministry School,* tt. 52-54, 166-169)

© 2014 Watch Tower Bible and Tract Society of Pennsylvania